crwydro

dyserth

sir ddinbych

cyflwyniad

Mae pentref Dyserth yn gorwedd islaw llethrau Moel Hiraddug - sydd wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol er 1985. Mae'i lecynnau blodau gwyllt yn lloches i bethau prin megis fioledau a thegeirianau gwyn tra uwchben fe allech weld y boncath ac, os ydych chi'n lwcus iawn, yr hebog tramor.

Mae'r enw Dyserth wedi datblygu o'r 'Dissart' gwreiddiol, sy'n golygu "cell meudwy" ac a grybwyllwyd yn Llyfr Domesday yn 1086. Mae'r pentref yn llawn hanes ac mae olion preswylwyr cynharach yn frith o amgylch y dirwedd - o fryngaer gyn-Rufeinig hynafol ar gopa Moel Hiraddug i etifeddiaeth ddiwydiannol y chwareli a'r odynau calch.

Bu ymwelwyr yn dod i Ddyserth ers y 18fed ganrif i fwynhau'r awyr iach, gan ei fod wedi'i leoli rai cannoedd o droedfeddi uwchben lefel y môr. Mae'r pentref yn adnabyddus am ei raeadr ysblennydd sy'n disgyn saith deg troedfedd o Afon Ffyddion yng nghanol y pentref gerllaw'r eglwys. Mae siop a chaffi'r rhaeadr ar agor o fis Mawrth tan fis Hydref.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys pum taith gerdded yn Nyserth a'r cyffiniau. Gobeithio y gwnewch chi eu mwynhau.

Gwisgwch esgidiau priodol, ewch â rhywbeth bach i'w fwyta a'i yfed a dillad tywydd.

Cofiwch Reolau Cefn Gwlad:
PARCHU - DIOGELU - MWYNHAU

Nodyn arbennig: cymerwch ofal arbennig pan fydd hi'n wlyb gan fod y llwybrau'n gallu bod yn llithrig mewn mannau.

cynnwys

Taith Gerdded Melinau Marian	tudalen 4
Taith Gerdded Hottia	tudalen 6
Cylchdaith Moel Hiraddug	tudalen 8
Rhodfa Dyserth ac o Gylch Safle'r Castell	tudalen 10
Taith Gerdded Gron Dyserth	tudalen 12
Map o Ddyserth	tudalen 18

diolchiadau

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd gan **white fox** 01352 840898
Ffotograffiaeth gan Peter J Robinson a Bwrdd Croeso Cymru.
Disgrifiad y daith gerdded gron gan Malcolm Wilkinson.

Cyhoeddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, Adran Twristiaeth, www.sirddinbych.gov.uk Mae'r Cyngor yn cydnabod yn ddiolchgar help Grŵp Amgylcheddol Dyserth, trigolion a busnesau lleol. Gwnaed y daflen hon yn bosibl gan gyllid Amcan Un Ewropeaidd. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu awgrymiadau ynghylch y daflen hon e-bostiwch dcc_twristiaeth@sirddinbych.gov.uk neu ffoniwch: 01824 708112 os gwelwch yn dda.

Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau cywirdeb o fewn y cyhoeddiad hwn, ni all y cyhoeddwyr dderbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am unrhyw wall, anghywirdeb neu unrhyw beth a adawyd allan o ran unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn neu'n codi ohono mewn unrhyw ffordd.

taith gerdded melinau marian

Man cychwyn: maes parcio Anglia.

Cyfeirnod Grid: SJ 062 792.

Pellter yn fras: 2 filltir.

Amser sydd ei angen: tua 1.5 awr.

Tir: anwastad, angen esgidiau cryfion.

Trowch i'r chwith i'r ffordd fawr. Dilynwch y ffordd i fyny'r allt am tua 250 metr. Gyferbyn â'r ciosg ffôn, croeswch i'r gamfa ysgol yn ymyl Fferm Trecastell. Dros y gamfa, gwyrwch ychydig bach i'r chwith a dilyn y llwybr gyda'r gwrych ar y chwith, y fferm ar y dde.

Croeswch y cae o'ch blaen at giât yng nghanol y gwrych. Croeswch yn syth ar draws y cae nesaf, gan anelu am giât fechan simsan yng nghanol y gwrych. Drwy'r giât daliwch ychydig bach i'r dde at bont droed, sy'n arwain at lôn gyferbyn ag adfeilion Melin Llwyn (yn gweithio tan 1912). Daliwch i fynd i'r chwith ar hyd y lôn at dro llydan, gan gymryd y fforch i'r dde (ag arwyddbost am Marian Cwm). Ewch heibio fferm frithyll ar y chwith. Mae gweddillion "Melinau Marian" yn dod i'r golwg yn fuan. Ganrif yn ôl roedd y melinau, yn cynnwys ystafelloedd te, yn atyniad poblogaidd i ymwelwyr; bellach mae'r "Felin Fawr" yn dal i fod â'i siafft olwyn wreiddiol, ond y ddyfrffos yn unig a erys ar gyfer y "Felin Fach" lai.

Yn y groesffordd T trowch i'r dde (arwyddbost Llwybr Clawdd Offa). Ar y chwith mae cronfa ddŵr gaeëdig a gorsaf bwmpio ble mae Ffynnon Asa(ph) yn ymuno ag afon Ffyddion.

Dilynwch y llwybr ychydig ar i fyny, ewch dros ddwy gamfa i gyrraedd giât fferm, gan gymryd y gamfa ar y chwith i ddilyn Llwybr Clawdd Offa ar draws cae agored. Ewch dros y gamfa olaf i'r ffordd a throi i'r dde. Mae'r ffordd yn mynd â chi yn ôl yn awr i Ddyserth a'r ffordd fawr. Yn y groesffordd T trowch i'r dde i lawr yr allt ac yn ôl i'r maes parcio.

Felin Fawr.

taith gerdded hottia

Man cychwyn: maes parcio yn agos i Thomas Avenue.

Cyfeirnod Grid: SJ 059 789.

Pellter: tua 2.5 milltir.

Amser: tua awr.

Tir: ar hyd ffyrdd i gyd. Mae'n bosibl efo cadair olwyn ond nid oes palmentydd ac mae angen gofal ar hyd ffyrdd culion. Gwisgwch esgidiau cyffyrddus.

Trowch i'r dde allan o'r maes parcio ac i Thomas Avenue, heibio i'r ysgol. Trowch i'r chwith i fyny allt fer a throi i'r dde i Ffordd Isaf Foel. Daliwch i fynd i ben y ffordd yma at y groesffordd. Trowch i'r chwith a cherdded i fyny'r rhiw raddol ond hir. Ar y dde, ar ôl y tai mae yna sedd gyfleus sy'n edrych allan dros droed Dyffryn Clwyd tuag at Eryri. Daliwch i fynd i fyny'r allt, gan droi i'r dde heibio fferm Pentre Cwm, sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg, a'r sgubor sydd wedi'i throi'n dŷ. Mae'r ffordd yn culhau a bydd angen ichi sefyll yn agos i un ochr pan fydd traffig yn agosáu.

Yn y groesffordd nesaf trowch i'r dde. Daliwch i fynd i lawr y ffordd, heibio i hen ffarm Tan Llan ac i'r groesffordd ble'r ydych yn troi i'r dde. Mae'r lôn ychydig yn lletach yma ond mae'n gallu denu mwy o draffig sy'n dod o'r A55. Mae'r ffordd yn dal i fynd yn ôl i Ddyserth, yn gyfochrog â Moel Hiraddug ar y dde ichi.

Golygfa o uwchben Pentre Cwm.

Wrth fynd heibio fferm Hottia ar y chwith ichi byddwch yn troi ar eich sawdl i'r dde tuag at ble mae'r tai yn cychwyn. Daliwch ar Ffordd Llanelwy wrth iddi wyro gyda'r caeau ar eich chwith a cherdded ar ei hyd nes bod ffordd arall yn ymuno â hi ar ongl o'r dde. Trowch i'r dde i fyny'r ffordd yma (Ffordd Cwm) am tua 30 llath. Yna ar eich chwith rhwng ochr y byngalo olaf ac arglawdd glaswelltog caeau chwarae'r ysgol mae yna lwybr troed sy'n mynd â chi i fyny i gae pêl-droed y Coroni. Croeswch y cae yma ac fe gewch chi eich hun yn ôl ym maes parcio Thomas Avenue.

cylchdaith moel hiraddug

Man cychwyn: maes parcio Thomas Avenue.

Cyfeirnod Grid: SJ 059 789.

Pellter yn fras: 3.5 milltir.

Amser: tua 2 awr.

Tir: cymysg. Gwisgwch esgidiau cerdded.

Trowch i'r dde i Thomas Avenue. Ewch heibio'r ysgol ac i fyny'r allt i gyffordd Ffordd Foel Isaf a throi i'r dde. Ar ôl tua 400 metr, yn union y tu draw i'r ffordd bengaead ar y dde wrth i'r ffordd bantio i'r dde, trowch ar y llwybr ar y chwith tuag at y coedydd (arwydd Cwm). Ewch drwy'r giât fochyn a dal i fynd ar hyd y llwybr i mewn i'r coed. Anwybyddwch y grisiau i fyny i'r chwith a dilynwch y llwybr i'r ail giât fochyn. Mae'r llwybr yn gadael y coed yn awr ac yn arwain drwy eithin tuag at dir pori agored a thrydedd giât fochyn.

Ewch drwy'r giât a throi i'r chwith i fyny'r lôn. Wrth i'r lôn wastatáu mae siediau gwyrdd ar y gorwel yn nodi'r cyfeiriad yr ydych yn ei ddilyn. Gan fynd heibio'r siediau ar y chwith, daliwch i fynd i lawr i'r gyffordd. Trowch i'r chwith i Farian Cwm. Cerddwch drwy'r pentref ac yn union cyn y tŷ mawr gwyn ar y chwith, chwiliwch am y blwch postio a'r arwydd llwybr troed. Dilynwch y llwybr i'r chwith (sy'n awr yn rhan o lwybr hirbell Clawdd Offa).

Ewch dros gamfa ac i mewn i borfa arw. Gwyrwch i'r chwith ac ar i fyny drwy'r bwlch yn y ffens ac anelu am y postyn marcio.

Anelwch 'rŵan am ail bostyn marcio ac yna'r trydydd. Mae'r llwybr yn croesi cae yn awr at gamfa yn y gornel chwith isaf. Dilynwch y gwrych ar y chwith at gamfa arall a mynd drosti i hen lôn werdd. Trowch i'r chwith i gyfeiriad adeiladau'r fferm. Ewch heibio'r fferm a dilyn y lôn, gan anwybyddu'r arwydd llwybr troed o boptu wrth i'r lôn wyro, yn agos at lethrau isaf Moel Hiraddug.

Moel Hiraddug.

Ble mae'r lôn yn troi'n sydyn i'r dde, ewch drwy'r giât ar y chwith. Croeswch y cae yn syth yn eich blaen at y gamfa yn y gwrych. Ewch dros y gamfa a dal i fynd yn eich blaen at gamfa arall yn y coed. Croeswch y cae nesaf at gamfa arall yn y gwrych gyferbyn: ewch dros hon i lwybr caeëdig. Yng ngwaelod y llwybr yma mae pedwaredd gamfa'n arwain at lôn darmac; trowch i'r chwith. Yn union cyn i'r lôn droi'n sydyn i'r dde mae yna lwybr troed yn syth o'ch blaen, yr arwydd yn anodd i'w weld yn isel i lawr. Daliwch i fynd i lawr y llwybr at y lôn a throi i'r chwith i gyfeiriad canol pentref Dyserth a'r maes parcio.

rhodfa dyserth ac o gylch safle'r castell

Man cychwyn: maes parcio Thomas Avenue.

Cyfeirnod Grid: SJ 059 789.

Pellter yn fras: 2.5 milltir.

Amser: tua 1.5 awr.

Tir: crwydriad isel drwy goedwigoedd, caeau a lonydd. Gwisgwch esgidiau synhwyrol.

Gadewch y maes parcio drwy'r giât i'r cae chwarae ac anelu'n syth at y gatiau i'r Stryd Fawr. Croeswch y ffordd i Bryn-y-Felin i'r chwith o'r modurdy a dilyn y lôn i'w phen. Anwybyddwch y grisiau i lawr i'r chwith, sy'n arwain i'r rhaeadr, a daliwch i'r dde heibio i'r bwthyn gwyn, i lawr grisiau at bont droed. Croeswch y bont a dal i fynd ar i fyny.

Dilynwch y llwybr drwy'r coedydd at gamfa. Daliwch i fynd at ail gamfa wrth fwthyn Rookery Nook a throi i'r dde i'r ffordd. Dilynwch y ffordd i fyny at groesffordd T a throi i'r dde. Ar ôl tua 30 metr dringwch i fyny'r grisiau ar y chwith at giât fochyn sy'n mynd i fewn i weirglodd SoDdGA, Maes Hiraddug. Croeswch y weirglodd gan wyro i'r chwith, at hen bont garreg. Croeswch y bont a throi'n sydyn i'r dde (gan anwybyddu'r giât fochyn), i lawr at y rhodfa. Trowch i'r dde eto a dal i fynd ar hyd y rhodfa am tua 0.5 milltir.

Trowch oddi ar y rhodfa, i'r dde, wrth arwydd at Safle Castell Dyserth. Mae'r llwybr yn arwain i lawr grisiau ac yn gwyro i'r chwith gyda gweirglodd ar y dde. Wrth fforch yn y llwybr (mae'r chwith yn arwain i'r hen chwarel y safai'r castell uwch ei phen ers talwm), trowch ar y fforch i'r dde gan dilyn ffens, at gamfa a giât fetel. Ewch dros y gamfa ac ar lwybr. Ym mhen uchaf y codiad, trowch i'r chwith a mynd dros gamfa arall. Dilynwch lwybr cul a mynd dros drydedd gamfa i gae.

Croeswch y cae yn agos i'r gwrych ar y chwith, i gyrraedd pedwaredd gamfa yn y gornel. Trowch i'r dde i'r lôn a chroesi'r bont dros y rhodfa. Trowch i'r dde yn y gyffordd a dilyn y lôn i droi i'r chwith yn Rookery Nook ac ymuno â'r llwybr allan gwreiddiol.

cylchdaith dyserth

Man cychwyn: maes parcio cyhoeddus yn agos i Raeadr Dyserth. Toiledau ar gael yn y maes parcio (ar agor yn dymhorol).

Cyfeirnod Grid: SJ 056 793, O.S. Explorer Map 264 Vale of Clwyd.

Pellter: tua 7 milltir neu 11.2 km.

Amser sydd ei angen: tua 4.5 awr.

Tir: rhai rhiwiau serth mewn rhai rhannau, felly mae angen lefel gymedrol o ffitrwydd.

Gadewch y maes parcio a cherdded tuag at y ffordd, trowch i'r chwith ac ar ôl ychydig trowch i'r chwith yn syth ar ôl y siop de a dringo cyfres o risiau gan droi i'r chwith yn y top ble mae'n cwrdd â'r llwybr. Yn lle hynny, trowch i'r chwith cyn y siop de ac ar ôl talu toll fechan anelwch am y rhaeadr drwy gatiau metel a dringo i fyny'r grisiau cerrig ar ochr chwith y rhaeadr gan ddilyn y llwybr ar i fyny a mynd heibio'r olygfan sydd â sedd lydan yn edrych dros y pentref. Daliwch i fynd ar y llwybr gan fynd i lawr rhywfaint o risiau pren at lwybr a throi i'r chwith gan gerdded drwy goed i gyfeiriad camfa. Ewch dros y gamfa a throi i'r dde gan ddringo llechwedd serth i gae agored ble mae yna bostyn dangos y ffordd. Dringwch dros y gamfa yng nghornel y goedwig a dilyn llwybr sydd wedi'i ffensio ar hyd cyrion y coetir i gyfeiriad Lôn Pandy. Croeswch y lôn a dringo i fyny grisiau metel a mynd drwy giât fochyn yn syth gyferbyn, gan fynd i mewn i gae agored sy'n cael ei reoli gan yr Ymddiriedolaeth Byd Natur. Ewch ar draws y cae ar letgroes i'r dde i gyfeiriad giât a chamfa.

Pont garreg dros Rodfa Dyserth-Prestatyn.

Croeswch y bont reilffordd garreg a throi'n sydyn i'r dde gan anwybyddu'r giât fochyn a mynd i lawr y grisiau i ymuno â Rhodfa Dyserth i Brestatyn, gan droi i'r dde i gyfeiriad Prestatyn. Cadwch lygad am yr ogofeydd isel yn y graig carreg galch ar y dde (rhwyllau wedi'u gosod arnyn nhw i atal mynediad heb ganiatâd). Dilynwch y rhodfa nes ichi gyrraedd y giât bren a sied nwyddau'r hen reilffordd (adeilad carreg) ar y chwith.

Trowch i'r dde ar y llwybr yn union gyferbyn â'r adeilad carreg ac ar ôl ychydig lathenni ewch drwy giât fochyn gan ddilyn llwybr serth a grisiau i fyny Craig Fawr, sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn dir mynediad agored dynodedig. Anwybyddwch y giât fochyn ar y chwith hanner ffordd i fyny'r llwybr yma. Wedi cyrraedd pen y grisiau, fe ddaw'r cyntaf o amryw o byst dangos y ffordd i'r golwg, gan ddangos cyfeiriad y llwybr sy'n arwain at y ffordd yn Bryniau. Yn lle hynny, efallai yr hoffech chi wyro oddi ar y llwybr arferol a dringo at y cyfeirbwynt gwyn ar gopa Craig Fawr (153 metr/502 troedfedd) gyda'i olygfeydd ysblennydd o'r arfordir, Eryri ac Ynys Môn.

Rhaeadr Dyserth.

Gadewch dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol drwy'r giât fochyn a throi i'r chwith ar y ffordd wrth Mount House. Dilynwch y ffordd a chwiliwch am risiau cerrig a chamfa ar y dde, sydd ar Lwybr Clawdd Offa. Daliwch i fynd ar lwybr Clawdd Offa gan groesi camfeydd mewn pedwar cae cyn mynd i lawr llechwedd serth i'r ffordd. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd gan gadw llygad am ogofeydd ar y dde. Ar ôl byr o ffordd ewch dros y gamfa gyntaf ar y dde a chroesi drwy dau gae i gyfeiriad ffordd Trelawnyd, gyda fferm Tŷ Newydd ar y dde (gall y darn yma fod yn fwdlyd iawn).

Trowch i'r dde ar y ffordd ac ar ôl tua 50m trowch am y gamfa ar yr ochr arall i'r ffordd. Daliwch i fynd at y gamfa nesaf a throi i'r dde i lôn wledig sy'n mynd i lawr at yr afon. Gadewch lwybr Clawdd Offa pan gyrhaeddwch chi'r bachdro a dilynwch y lôn gan fynd heibio Melin Llwyn ar y chwith. Daliwch i fynd ar hyd y lôn am tua hanner milltir, gan anwybyddu pob camfa nes ichi gyrraedd y ffordd a throi i'r dde yn y gyffordd. Ar ôl byr o ffordd trowch ar y llwybr ar y chwith wrth ochr y byngalo gwyn a dilynwch y llwybr sydd wedi'i ffensio at dramwyfa a throi i'r dde. Yn union cyn y giât i dŷ preifat ewch dros y gamfa ar y dde a dilyn y llwybr drwy lwyni eithin at gamfa ysgol a chae agored. Croeswch dri chae gyda chamfeydd ysgol nes ichi gyrraedd giât fetel ar lôn fferm.

Trowch i'r dde a dilynwch y lôn nes ichi gyrraedd camfa ar yr ochr dde cyn cyrraedd y fferm. Croeswch dri chae gyda chamfeydd a mynd i lawr y grisiau i'r lôn. Gyferbyn mae camfa sy'n arwain i Goed yr Eglwys gan groesi dwy gamfa arall cyn mynd i mewn i gae.

Rydych yn nesu at bentref Cwm yn awr ac mae'r gamfa wedi'i lleoli yng nghornel chwith y cae yn agos i'r eglwys. Trowch i'r dde ar y ffordd gan fynd heibio tafarn y Blue Lion ar y chwith. Ar ôl byr o ffordd trowch am y gamfa ar y dde i gyfeiriad dwy gamfa arall sy'n arwain at gae agored. Cerddwch i fyny canol y cae sydd â llechwedd serth gan chwilio am giât a chamfa ar ben y bryn. Cymerwch amser i edmygu'r golygfeydd ardderchog ar draws Dyffryn Clwyd i gyfeiriad Eryri.

Croeswch gae arall a dringo dros gamfa i'r lôn. Gyferbyn mae giât fochyn fetel gyda llwybr yn arwain ar hyd llechweddi gorllewinol isaf Moel Hiraddug. Dilynwch y llwybr drwy goetir gan fynd drwy giât fochyn nes y dewch chi i ben draw'r coed a dilyn y llwybr a'r grisiau ar y dde sy'n arwain yn ôl i'r ffordd. Ar ôl cyrraedd y ffordd trowch i'r dde gan fynd i gyfeiriad Dyserth.

Trowch i'r chwith yn y ffordd fawr a cherdded drwy'r pentref nes ichi gyrraedd tafarn y Cross Keys ar y chwith. Yn union gyferbyn mae llwybr troed sy'n arwain i gyfeiriad y rhaeadr. Dilynwch y llwybr yma nes y gwelwch chi risiau cerrig ar y chwith a fydd yn eich arwain i lawr i'r ffordd fawr yn ymyl y siop de. Trowch i'r dde wrth y siop de ac yn ôl i'r maes parcio.

Golygfa o Foel Hiraddug.